

Mark Drakeford AS/MS
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg
Cabinet Secretary for Finance and Welsh Language



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref RoO23_24

Peredur Owen Griffiths MS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

20 Rhagfyr 2024

Annwyl Peredur,

Cyhoeddwyd Cyfrifon Blynyddol Cyfunol archwiliedig Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24 ar 29 Tachwedd.

Yn unol ag ymrwymiad y llywodraeth hon i arferion da a thryloywder, gallaf yn awr ddarparu adroddiad ysgrifenedig i'r Pwyllgor Cyllid ar alldro terfynol 2023-24 ar gyfer Llywodraeth Cymru, wedi'i osod yn erbyn cynlluniau gwariant a gymeradwywyd yn Ail Gyllideb Atodol 2023-24.

Mae'r adroddiad a'r atodiadau ategol yn rhoi crynodeb o wariant fesul portffolio o fewn cyfansymiau rheolaeth y Trysorlys, amrywiadau o gymharu â'r gyllideb, esboniad o amrywiadau sylweddol a manylion y symiau i'w cario ymlaen yng Nghronfa Wrth Gefn Cymru.

Rwy'n hapus i ymateb i unrhyw gwestiynau sydd gennych.

Yn gywir,

Mark Drakeford AS/MS
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg
Cabinet Secretary for Finance and Welsh Language

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru

Adroddiad ar Alldro 2023-24

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg i Bwyllgor Cyllid y Senedd ar alldro Llywodraeth Cymru 2023-24 yn erbyn y gwariant arfaethedig a gynhwysir yn Ail Gyllideb Atodol 2023-24. Cyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2024.

Cynnwys

1. Cyflwyniad	2
2. Alldro'r Prif Grwpiau Gwariant 2023-24	4
3. Cario symiau ymlaen yng Nghronfa Wrth Gefn Cymru	16
ATODIAD 1: Alldro DEL Adnoddau yn ôl BEL.....	19
ATODIAD 2: Alldro DEL Cyfalaf yn ôl BEL.....	26
ATODIAD 3: Alldro Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME) yn ôl BEL.....	30

1. Cyflwyniad

1.1 Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol â'r protocol a gymeradwywyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 21 Mawrth 2012 ynghylch newidiadau i gynnyg y gyllideb a'u heffeithiau ar gylch y gyllideb yn ystod y flwyddyn.

1.2 Fel rhan o'r protocol, cytunodd Llywodraeth Cymru ar y canlynol:

Yn unol ag ymrwymiad Llywodraeth Cymru i weithio mewn modd agored a thryloyw, bydd yn darparu adroddiad ysgrifenedig i'r Pwyllgor [Cyllid] ar y canlyniadau terfynol. Bydd yr adroddiad hwn yn cynnwys cymhariaeth â'r cynlluniau gwario a nodwyd yng Nghyllideb Atodol olaf y flwyddyn ac eglurhad o'r amrywiadau sylweddol.

1.3 Cafodd yr ymrwymiad hwn ei ailddatgan yn y protocol diwygiedig a gymeradwywyd gan y Cynulliad Cenedlaethol ar 21 Mehefin 2017.

1.4 Mae'r adroddiad hwn yn mynd i'r afael â'r ymrwymiad hwnnw ar gyfer blwyddyn ariannol 2023-24.

1.5 Cymeradwywyd Ail Gyllideb Atodol 2023-24 gan y Senedd ar 13 Mawrth 2024. Mae'r alldro terfynol yn dilyn cyhoeddi Cyfrifon Cyfunol Blynnyddol Llywodraeth Cymru ar 29 Tachwedd 2024. Mae'r cyfrifon ar gael drwy'r ddolen rhyngrwyd isod.

[Cyfrifon cyfunol blynnyddol Llywodraeth Cymru 2023 i 2024 | LLYW.CYMRU](#)

1.6 Ni wnaed unrhyw ddyraniadau cyllidebol ychwanegol o gronfeydd wrth gefn rhwng dyddiad cyhoeddi'r gyllideb a diwedd y flwyddyn ariannol.

- 1.7** Llunnir yr adroddiad ar yr alldro ar sail strwythur cyllideb Llywodraeth Cymru a oedd mewn grym ar ddiwedd y flwyddyn ac a gaiff ei gofnodi yn y cyfrifon blynyddol archwiliedig.

2. Alldro'r Prif Grwpiau Gwariant¹ 2023-24

- 2.1** Mae Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru yn cynnwys Crynodeb o Alldro Adnoddau yn erbyn y cyfansymiau rheoli a gymeradwywyd yng nghynnig Ail Gyllideb Atodol 2023-24.
- 2.2** Mae'r adroddiad hwn yn rhoi manylion yr alldro terfynol yn erbyn y rheolaethau lefel is sy'n cael eu gweithredu a'u gorfodi gan Drysorlys EF. Adroddir ar y cyllidebau gweinyddol hyn yn y dogfennau a'r tablau a oedd yn cyd-fynd ag Ail Gyllideb Atodol 2023-24.
- 2.3** Yn unol â'r blynyddoedd blaenorol, mae'r adroddiad hefyd yn darparu esboniadau o bob gorwariant ynghyd ag unrhyw danwariant o fwy na 1% mewn cyllidebau ar lefel Prif Grŵp Gwariant (MEG) ym mhob un o'r cyfansymiau rheoli (yn ddarostyngedig i lefel de minimis o £1m).
- 2.4** Mae'r alldro wedi cael ei ddadansoddi ymhellach i'r lefel a gyhoeddwyd yn Ail Gyllideb Atodol 2023-24. Mae'r tablau cyllidebol a gyhoeddwyd gyda'r gyllideb yn dangos dadansoddiad i Linellau Gwariant yn y Gyllideb neu 'BELs'. Mae'r alldro yn erbyn y gyllideb yn cael ei ddarparu ar y sail hon yn yr Atodiadau i'r adroddiad hwn.

¹ Cyllideb lefel uwch sy'n cynrychioli portffolio gweinidogol neu gyllideb weinyddu ganolog yw Prif Grŵp Gwariant neu MEG.

Alldro DEL Adnoddau (Refeniw)

DEL Adnoddau Cyllido²

2.5 Arweiniodd yr alldro Adnoddau Cyllidol ar gyfer y flwyddyn at danwariant o £112.5m, sef amrywiant o 0.6% yn y gyllideb.

2.6 Mae Tabl 2.1 yn nodi'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn. Mae esboniadau o'r amrywiannau fel y'u pennir ym mharagraff 2.3 yn dilyn.

Tabl 2.1: Alldro Adnoddau Cyllidol yn ôl MEG	Cyllideb £m	Alldro £m	Tan/Gor wariant £m	%
Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol	10,744.0	10,722.4	21.6	0.2
Cyllid a Llywodraeth Leol	4,852.7	4,822.0	30.7	0.6
Y Gymraeg ac Addysg	1,758.5	1,764.3	-5.8	-0.3
Newid Hinsawdd	991.0	981.0	10.0	1.0
Yr Economi	412.6	350.3	62.3	15.1
Materion Gwledig	359.4	364.0	-4.6	-1.3
Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu	314.9	320.3	-5.4	-1.7
Cyfiawnder Cymdeithasol	139.5	135.8	3.7	2.7
CYFANSWM	19,572.6	19,460.1	112.5	0.6

2.7 Roedd y gorwariant o £5.8m ym MEG y Gymraeg ac Addysg yn cynnwys gwariant ychwanegol wedi'i gymeradwyo ar Gyfrifon Dysgu Personol, a gafodd ei reoli ar lefel Llywodraeth Cymru drwy danwariant ar y gyllideb Prentisiaethau o fewn MEG yr Economi. Roedd gorwariant hefyd ar grantiau cymorth i fyfyrwyr a rhaglenni astudio ôl-16 mewn sefydliadau Addysg Bellach arbenigol, gan fod y ddau grant yn cael eu harwain gan y galw.

2.8 Mae'r tanwariant o £10m a adroddwyd ar gyfer y MEG Newid Hinsawdd yn deillio o arbediad net ar draws nifer o amrywiannau yn llinellau'r gyllideb, sy'n adlewyrchu amrywiaeth y portffolio. Roedd y prif danwariant yn y MEG ar y gyllideb Newid Hinsawdd a Chynaliadwyedd (£11.3m), y gyllideb Gwasanaethau Trafnidiaeth a Buddsoddi (£6.9m), y gyllideb Cartrefi a

² Mae DEL Adnoddau Cyllidol yn gyfanswm rheoli a bennir gan Drysorlys EF ac yn is-set o Adnoddau DEL a chyfeirir ato fel 'refeniw' hefyd.

Lleoedd (£7.9m) a'r gyllideb Effeithlonrwydd Adnoddau a'r Economi Gylchol (£3.9m). Roedd y tanwariant yn deillio o gyfuniad o ailbroffilio grantiau awdurdodau lleol i flynyddoedd i ddod ac oedi cyn sefydlu cynlluniau blynyddol newydd. Cafodd y tanwariant hwn ei wrthbwysu gan orwariant ar gyllidebau eraill, gan gynnwys gorwariant ar yr Amgylchedd (£10m), a hynny'n bennaf o ganlyniad i daliadau pensiwn ychwanegol Cyfoeth Naturiol Cymru a diffyg mewn incwm gwerthu pren, yn ogystal â gorwariant ar Weithrediadau Traffyrdd a Chefnffyrdd (£10.7m) yn sgil costau uwch.

2.9 Roedd y tanwariant o £62.3m ym MEG yr Economi yn deillio o amrywiannau mewn sawl llinell yn y gyllideb. Y tanwariant mwyaf oedd £27.1m ar gyllideb Banc Datblygu Cymru, a hynny o ganlyniad i gyfrif am ei alldro ar ddiwedd y flwyddyn. Adroddwyd hefyd am danwariant o £2m ar Gyflogadwyedd a'r Warrant i Bobl Ifanc, tanwariant o £12.9m ar Brentisiaethau a thanwariant o £6.4m ar Fusnes Cymru, a hynny oherwydd natur y rhaglenni hyn a arweinir gan y galw, gwneud y mwyaf o incwm yr UE sydd wedi'i dynnu i lawr gan WEFO a chostau is na'r disgwyl oherwydd dirwyn rhaglenni i ben. Arweiniodd incwm uwch na'r disgwyl o gynnydd mewn cyfraddau llog at danwariant ar draws y portffolio Busnes a Datblygu Rhanbarthol (£2m). Roedd tanwariant o £4.9m hefyd ar gyfer swyddi Rheoli Ffiniau oherwydd llithriant yn y rhaglen. Adroddwyd am danwariant pellach ar Ddiwylliant a'r Celfyddydau, a Chwaraeon a Gweithgarwch Corfforol, sef £6.4m a £3.1m yn y drefn honno. Cafodd y tanwariant hwn ei wrthbwysu gan orwariant o £1.6m ar Gydgasglu Band Eang y Sector Cyhoeddus, a hynny o ganlyniad i ofynion lled band uwch na'r disgwyl, yn ogystal â gorwariant o £1.6m ar Dwristiaeth a gorwariant o £1.3m ar Gymorth i'r Amgylchedd Hanesyddol.

2.10 Roedd y gorwariant o £4.6m ar Faterion Gwledig yn bennaf oherwydd cost uniongyrchol ac anuniongyrchol ymateb a arweinir gan y galw i warchod a gwella iechyd a lles anifeiliaid. Roedd gorwariant o £3.5m ar yr Asiantaeth

Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion yn ogystal â gorwariant o £2.8m ar y gyllideb ar gyfer iawndal twbercwlosis. Roedd hyn yn dilyn cymeradwyo cyllid cyfatebol domestig ychwanegol i sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn gwneud y defnydd gorau posibl o'r arian sydd ar gael gan yr UE.

2.11 Roedd y gorwariant o £5.4m ar Wasanaethau Canolog a Gweinyddu o ganlyniad i orwariant o £25m ar gostau staff. Digwyddodd hyn o ganlyniad i'r ymarfer ailflaenoriaethu cyllidebol yn gynnar yn y flwyddyn ariannol, a bu'n rhaid i'r llinell 'costau staff' yn y gyllideb ysgwyddo'r rhan fwyaf o'r gostyngiad gofynnol yn y MEG. Cafodd effaith y gorwariant ei lleihau gan arbedion o £5.2m ar y gyllideb ar gyfer Costau Gweinyddu Cyffredinol, a hynny'n bennaf o ganlyniad i ryddhau addasiadau cronol hanesyddol a thanwariant o £14m ar y gyllideb ar gyfer costau pontio'r UE.

2.12 Mae'r tanwariant o £3.7m ym maes Cyfiawnder Cymdeithasol yn gysylltiedig yn bennaf ag arbediad o £2.1m ar y gyllideb Cydraddoldeb, Cynhwysiant a Hawliau Dynol a achoswyd gan oedi wrth recriwtio staff. Cafodd hyn effaith ganlyniadol ar gyflawni. Roedd arbediad pellach o £1.8m ar y gyllideb Cynhwysiant Ariannol sy'n cefnogi'r Gronfa Cymorth Dewisol. Ni fu angen y gronfa wrth gefn a oedd wedi'i chadw yn y gyllideb ar gyfer y gaeaf.

DEL Adnoddau Anghyllidol³

2.13 Cafwyd tanwariant o £593.8m yn y gyllideb DEL Adnoddau Anghyllidol, sef amrywiant o 59.7% o'r gyllideb. Mae'n bwysig nodi bod y gyllideb Adnoddau Anghyllidol wedi'i chlustnodi ac na ellir ei hailgyfeirio i raglenni gwariant Llywodraeth Cymru. Mae'r cyllidebau hyn yn cwmpasu addasiadau cyfrifyddu nad ydynt yn galw am arian parod megis dibrisiant a darpariaeth i ddileu taliadau benthyciadau i fyfyrwyr.

³ Mae DEL Adnoddau Anghyllidol yn gyfanswm rheoli a bennir gan Drysorlys EF sy'n cwmpasu addasiadau cyfrifyddu blynyddol ar gyfer benthyciadau i fyfyrwyr a gafodd eu dileu, symiau eraill a gafodd eu dileu a thaliadau dibrisiant.

2.14 Mae Tabl 2.2 yn nodi'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn. Mae esboniadau o'r amrywiannau fel y'u pennir ym mharagraff 2.3 yn dilyn.

Tabl 2.2: Alldro Adnoddau Anghyllidol yn ôl MEG	Cyllideb £m	Alldro £m	Tan/Gor variant £m	%
Newid Hinsawdd	402.4	286.5	115.9	28.8
Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol	314.5	292.7	21.8	6.9
Y Gymraeg ac Addysg	229.9	-225.0	454.9	>100
Yr Economi	20.7	24.5	-3.8	-18.4
Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu	18.6	14.6	4.0	21.5
Materion Gwledig	7.8	7.0	0.8	10.3
Cyllid a Llywodraeth Leol	0.6	0.2	0.4	66.7
Cyfiawnder Cymdeithasol	0.2	0.4	-0.2	-100.0
CYFANSWM	994.7	400.9	593.8	59.7

2.15 Mae'r tanwariant o £115.9m yn y MEG Newid Hinsawdd yn cynnwys taliadau dibrisiant a gyfrifwyd gan fodelau ystadegol, felly mae'n anodd amcangyfrif y gofyniad cyllidebol. Y prif elfennau sydd wedi'u cynnwys yn y modelu yw dibrisiant y rhwydwaith cefnffyrdd ac asedau rheilffyrdd Llinellau Craidd y Cymoedd. Y cyfrifiad alldro ar sail y model a gynhyrchodd yr amrywiant ar ddiwedd y flwyddyn.

2.16 Mae'r tanwariant o £21.8m ar Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn adlewyrchu gofynion is na'r disgwyl ar gyfer costau nad ydynt yn arian parod ar gyfer asedau yn y GIG yng Nghymru (£15.8m) a'r effeithiau nad ydynt yn ymwneud ag arian parod yn sgil y dull cyfrifyddu ar gyfer trin asedau a brydlesir o dan IFRS 16 (£6m). Cafodd y tanwariant ar asedau sydd ym mherchnogaeth cyrff y GIG ei sbarduno'n bennaf gan y ffaith nad oedd gofyniad yn ystod y flwyddyn i ddarparu cyllideb i Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru ar gyfer ailbrisio eiddo, offer a chyfarpar. Yn ogystal, roedd oedi wrth ddechrau cynlluniau cyfalaf y GIG ac roedd addasiadau technegol a oedd yn effeithio ar y tanwariant, megis dibrisiant wedi'i gyflymu. Roedd y tanwariant ar asedau a brydlesir i'w briodoli i gyfuno sawl amrywiant bach a adroddwyd ar draws sefydliadau'r GIG.

- 2.17** Mae'r tanwariant o £454.9m ar y Gymraeg ac Addysg i'w briodoli i brisio benthyciadau i fyfyrwyr. Mae gwerth benthyciadau newydd a hanesyddol yn cael ei bennu gan fodel ystadegol sy'n darparu'r swm sy'n cael ei ddileu yn flynyddol. Mae ffactorau cymdeithasol ac economaidd yn effeithio'n sylweddol ar hyn. Roedd y tanwariant yn 2023-24 yn bennaf yn sgil gweithredu cyfradd ddisgowntio hollt gan Drysorlys EF, sef -1.05% tan fis Chwefror 2030 cyn newid i -0.05% o'r dyddiad hwnnw ymlaen. Cynyddodd hyn werth teg amcangyfrifedig y portffolio benthyciadau i fyfyrwyr.
- 2.18** Mae'r gorwariant o £3.8m ar yr Economi yn cynnwys taliadau amhariad a dibrisiant o fewn y portffolio eiddo, sef cyfanswm o £1.7m yn dilyn y prisiadau ar ddiwedd y flwyddyn. Roedd gofyniad dibrisiant ychwanegol ar asedau sefydlog hefyd, sef £0.6m o fewn y portffolio Busnes a Rhanbarthau a £1.1m ar gyfer Llyfrgell Genedlaethol Cymru.
- 2.19** Mae'r tanwariant o £4m yn y MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu yn cynnwys darpariaeth ar gyfer dibrisiant ystad Llywodraeth Cymru, a oedd yn llai na'r hyn a oedd ei angen.
- 2.20** Roedd y gorwariant bach o £0.2m yn y MEG Cyfiawnder Cymdeithasol ar gyllidebau dibrisiant asedau'r comisiynwyr o ganlyniad i fwy o ofynion yn gysylltiedig ag asedau a ychwanegwyd.

Alldro DEL Cyfalaf

- 2.21** Cofnodwyd tanwariant o £104.3m ar gyllidebau DEL Cyfalaf, sef amrywiant o 3.2% yn erbyn y gyllideb. Mae DEL Cyfalaf wedi'i rannu rhwng Cyfalaf Cyffredinol a Thrafodiadau Ariannol Cyfalaf.

Cyfalaf Cyffredinol⁴

- 2.22** Arweiniodd yr alldro DEL Cyfalaf Cyffredinol ar gyfer 2023-24 at danwariant o £112.3m, sef amrywiant o 3.6% yn erbyn y gyllideb.

⁴ Mae DEL Cyfalaf Cyffredinol yn gyfanswm rheoli a bennir gan Drysorlys EF sy'n cwmpasu grantiau cyfalaf ac asedau a ychwanegwyd.

2.23 Mae Tabl 2.3 yn nodi'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn. Mae esboniadau o'r amrywiannau fel y'u pennir ym mharagraff 2.3 yn dilyn.

Tabl 2.3: Alldro Cyfalaf Cyffredinol yn ôl MEG	Cyllideb £m	Alldro £m	Tan/Gorwariant £m	%
Newid Hinsawdd	1,873.3	1,822.9	50.4	2.7
Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol	518.9	482.7	36.2	7.0
Y Gymraeg ac Addysg	333.3	334.0	-0.7	-0.2
Cyllid a Llywodraeth Leol	307.3	308.1	-0.8	-0.3
Yr Economi	59.2	36.5	22.7	38.3
Materion Gwledig	40.0	35.2	4.8	12.0
Cyfiawnder Cymdeithasol	13.1	13.9	-0.8	-6.1
Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu	12.4	11.9	0.5	4.0
CYFANSWM	3,157.5	3,045.2	112.3	3.6

2.24 Mae sawl elfen yn cyfrannu at y tanwariant cyffredinol o £50.4m a adroddwyd ar gyfer y MEG Newid Hinsawdd sy'n adlewyrchu amrywiaeth y portffolio. Y meysydd tanwario mwyaf sylweddol oedd Safonau a Rheoleiddio Diogelwch Tai (£104.6m), Gweithrediadau Traffyrdd a Chefnffyrdd (£72.8m), Effeithlonrwydd Adnoddau a'r Economi Gylchol (£31.2m), Teithio Cynaliadwy (£14.4m), Cronfa Rhyddhau Tir (£8.5m), Seilwaith Strategol (£4.5m) a'r Amgylchedd (£4.1m). Mae'r tanwariant i'w briodoli'n bennaf i lithriant mewn prosiectau sydd wedi'i achosi gan oedi o ran caffael a ffactorau economaidd. Caiff y tanwariant hwn ei wrthbwysu gan orwariant o ganlyniad i gynnydd yn y galw a'r costau a adroddwyd ym meysydd Cartrefi a Lleoedd (£101.3m), Gwasanaethau Trafnidiaeth a Buddsoddi gan gynnwys Trafnidiaeth Cymru (£73.8m), Newid Hinsawdd a Chynaliadwyedd (£11.7m) a Thlodi Tanwydd (£4.7m).

2.25 Mae prif elfen y tanwariant o £36.2m yn y MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn ymwneud yn bennaf â thanwariant ar y gyllideb sydd wedi'i chlustnodi ar gyfer asedau a brydlesir. Roedd hyn oherwydd llithriant mewn trefniadau prydlesu ar draws sefydliadau'r GIG yng Nghymru.

- 2.26** Mae'r gorwariant o £0.7m ar y Gymraeg ac Addysg yn ymwneud yn bennaf â chostau ychwanegol na ellir eu hosgoi a godir gan y Cwmni Benthyciadau i Fyfirwyr i'w alluogi i weinyddu cymorth statudol i fyfirwyr ar ran Llywodraeth Cymru.
- 2.27** Mae'r gorwariant o £0.8m ar Gyllid a Llywodraeth Leol yn ymwneud â gwariant ychwanegol a gytunwyd ar gyllideb Cynllun Datgarboneiddio Ynni Llywodraeth Cymru a gorwariant ar y gyllideb Buddsoddi i Arbed oherwydd ailbroffilio ad-daliadau yn ystod y flwyddyn.
- 2.28** Roedd y tanwariant o £22.7m ym MEG yr Economi yn deillio o amrywiannau mewn sawl llinell yn y gyllideb. Adroddwyd am y tanwariant mwyaf o £24.2m ar Seilwaith TGCh. Roedd hyn o ganlyniad i adfachu'r Grant Band Eang Cyflym lawn a llithriant o ran cynllun talebau Llywodraeth y DU. Adroddwyd am danwariant o £10.2m ar y rhaglen Gwyddorau hefyd o ganlyniad i incwm ychwanegol gan yr UE, yn ogystal â thanwariant o £5.7m ar Seilwaith Eiddo o ganlyniad i llithriant yn y prosiect. Roedd tanwariant pellach ar Sectorau a Busnesau, a Chymorth i Ddiwylliant a'r Celfyddydau, sef £3.2m a £3.8m yn y drefn honno. Cafodd y tanwariant hwn ei wrthbwysu gan orwariant o £18.6m ar Fanc Datblygu Cymru, a hynny o ganlyniad i gyfrif am ei alldro ar ddiwedd y flwyddyn, ynghyd â gorwariant pellach ar Chwaraeon a Gweithgarwch Corfforol, Arloesi, a'r Seilwaith Ffiniau, sef £3.5m, £3.1m a £1.1m yn y drefn honno.
- 2.29** Roedd tanwariant o £4.8m yn y MEG Materion Gwledig. Roedd y prif danwariant ar gynlluniau buddsoddi gwledig (£8.3m) a'r Cynllun Datblygu Gwledig (£4.4m) gan fod llai na'r disgwyl wedi manteisio arnynt. Cafodd y tanwariant hwn ei wrthbwysu gan orwariant o £7.5m ar ddatblygiad TGCh.
- 2.30** Mae'r gorwariant o £0.8m ar Gyfiawnder Cymdeithasol yn cynnwys gorwariant o £1.1m ar gyllidebau'r comisiynwyr o ganlyniad i brynu asedau ychwanegol. Cafodd y gorwariant hwn ei wrthbwysu gan arbedion eraill yn

y MEG, gan gynnwys £0.6m ar Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr a arweinir gan y galw.

Trafodiadau Ariannol Cyfalaf⁵

2.31 Roedd gorwariant o £8m ar y gyllideb Trafodiadau Ariannol Cyfalaf sy'n cyfateb i amrywiant o 6.8% yn erbyn y gyllideb.

2.32 Mae Tabl 2.4 yn nodi'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn. Mae esboniadau o'r amrywiannau fel y'u pennir ym mharagraff 2.3 yn dilyn.

Tabl 2.4: Alldro Trafodiadau Ariannol Cyfalaf yn ôl MEG	Cyllideb £m	Alldro £m	Tan/Gor wariant £m	%
Newid Hinsawdd	108.7	106.9	1.8	1.7
Y Gymraeg ac Addysg	19.3	19.7	-0.4	-2.1
Cyfiawnder Cymdeithasol	5.0	0	5.0	100.0
Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol	0	6.7	-6.7	>-100
Yr Economi	-15.6	-7.9	-7.7	-49.4
CYFANSWM	117.4	125.4	-8.0	-6.8

2.33 Mae'r tanwariant o £1.8m yn y MEG Newid Hinsawdd yn cynnwys arbediad o £11.9m ar gynlluniau cerbydau trydan oherwydd defnydd isel ac arbediad o £9.5m ar brosiect seilwaith strategol oherwydd llithriant. Cafodd y tanwariant hwn ei wrthbwyso gan orwariant net a oedd yn gysylltiedig â benthychiadau o £19.6m i landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, a gymeradwywyd yn hwyr yn y flwyddyn ariannol.

2.34 Mae'r gorwariant o £0.4m ym MEG y Gymraeg ac Addysg yn ymwneud ag addasiadau cyfrifyddu diwedd blwyddyn sy'n adlewyrchu alldro'r rhaglen Model Buddsoddi Cydfuddiannol Addysg a weinyddir gan Fanc Datblygu Cymru.

2.35 Mae'r tanwariant o £5m yn y MEG Cyfiawnder Cymdeithasol yn ymwneud â'r Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol. Darparwyd cyllid ychwanegol yn

⁵ Mae DEL Trafodiadau Ariannol Cyfalaf yn gyfanswm rheoli a bennir gan Drysorlys EF sy'n cwmpasu cyfalaf ad-daladwy (benthychiadau ac ecwiti).

ystod y flwyddyn i gefnogi Cronfa Benthyciadau Asedau Cymunedol. Ni ddaeth y buddsoddiad arfaethedig i ben yn ystod y flwyddyn, a arweiniodd at yr arbediad.

2.36 Mae'r gorwariant o £6.7m ar lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn ymwneud â thaliadau a wnaed yn hwyr yn y flwyddyn ariannol i Fanc Datblygu Cymru mewn perthynas â'r gyfran ecwiti yng Nghanolfan Ganser Felindre, sy'n cael ei hadeiladu o dan y Model Buddsoddi Cydfuddiannol. Ni sefydlwyd yr angen am gyllideb yn ystod y flwyddyn tan ar ôl yr Ail Gyllideb Atodol.

2.37 Mae dwy elfen i'r gorwariant o £7.7m ym MEG yr Economi. Yr elfen gyntaf yw gorwariant o £2.2m ar Fanc Datblygu Cymru, a hynny o ganlyniad i gyfrif am ei alldro ar ddiwedd y flwyddyn, a'r ail yw gorwariant o £5m ar Ddatblygu Busnes yn dilyn estyn cytundeb benthyciad.

Aldro Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME)

2.38 Roedd cyfran fawr o'r amrywiant a adroddwyd yn y cyfrifon blynyddol yn ymwneud â thanwariant ar gyllidebau AME.

2.39 Mae Trysorlys EF yn cydnabod pa mor ansefydlog yw rhaglenni penodol a'u bod yn seiliedig ar y galw, yn ogystal â pha mor anodd yw amcangyfrif costau dros gyfnod o amser. O ganlyniad, rheolir cyllidebau'r rhaglenni hyn yn flynyddol, a'r Trysorlys sy'n darparu'r cyllid hwn fel arfer. Mae'r rhan fwyaf o gyllidebau AME Llywodraeth Cymru yn cwmpasu addasiadau cyfrifyddu ac mae enghreifftiau'n cynnwys amhariad asedau, cynnydd mewn darpariaethau a phrisiadau pensiwn cyrff a noddir. Mae benthyciadau i fyfyrwyr a roddwyd ac a ad-dalwyd hefyd yn dod o dan y dosbarthiad hwn. Ni all Llywodraeth Cymru ailddyrannu arian sydd heb ei wario ar raglenni AME.

2.40 Mae Tabl 2.5 yn nodi'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn. Mae esboniadau o'r amrywiannau fel y'u pennir ym mharagraff 2.3 yn dilyn.

Tabl 2.5: Alldro AME yn ôl MEG	Cyllideb £m	Alldro £m	Tan/Gor wariant £m	%
Y Gymraeg ac Addysg	1,250.4	1,142.7	107.7	8.6
Cyllid a Llywodraeth Leol	906.5	929.1	-22.6	-2.5
Newid Hinsawdd	395.9	7.1	388.8	98.2
Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol	321.3	191.6	129.7	40.4
Yr Economi	94.8	19.5	75.3	79.4
Cyfiawnder Cymdeithasol	31.0	31.0	0	0
Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu	3.2	-2.7	5.9	>100
CYFANSWM	3,003.1	2,318.3	684.8	22.8

2.41 Roedd y tanwariant o £107.7m ym MEG Gwariant a Reolir yn Flynyddol y Gymraeg ac Addysg yn gysylltiedig â'r gyllideb benthyciadau i fyfyrwyr, sy'n cynnwys materion ac ad-daliadau a weinyddir gan y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr. Roedd y tanwariant yn bennaf oherwydd cymhwyso'r Mynegai Prisiau Manwerthu at y prisiad diwedd blwyddyn, a oedd yn uwch na'r amcangyfrif a roddwyd i Drysorlys EF ar gyfer ei ddiweddariad olaf ym mis Ionawr 2024.

2.42 Roedd y gorwariant o £22.6m ar y MEG Cyllid a Llywodraeth Leol i'w briodoli i gyllideb ardrethi annomestig yr awdurdodau lleol. Effeithir ar y cymorth sydd ar gael o'r gyllideb AME gan y nifer sy'n manteisio ar y cynllun rhyddhad ardrethi a ariennir drwy DEL adnoddau. Arweiniodd y ffaith bod llai na'r disgwyl wedi manteisio ar y cynllun rhyddhad ardrethi at bwysau ychwanegol yn y gyllideb AME.

2.43 Mae'r tanwariant o £388.8m yn y MEG Newid Hinsawdd yn ymwneud yn bennaf â chyllidebau ffyrdd a thai. Mae'r amrywiant o £148.5m yn y gyllideb ffyrdd yn cynnwys gostwng gwerth gwaith adeiladu newydd i ddechrau pan gafodd ei brisio gyntaf fel rhan o'r rhwydwaith cefnffyrdd. Mae'r tanwariant o ganlyniad i oedi wrth drosglwyddo i'r rhwydwaith. Mae'r tanwariant o £225.1m ar dai yn ymwneud â phrisiad diwedd blwyddyn y llyfr benthyciadau Cymorth i Brynu, sy'n ddarostyngedig i newidiadau i'r farchnad. Mae'r tanwariant yn adlewyrchu enillion prisio.

- 2.44** Mae dwy brif elfen i'r tanwariant o £129.7m ar y MEG lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Roedd tanwariant o £78m yn y gyllideb amhariadau asedau yn deillio'n bennaf o oramcangyfrif y gofyniad ar gyfer concrit awyredig awtoclafiedig cyfnerth, amrywiannau yn yr amcangyfrifon a wnaed yn lleol cyn cadarnhau'r ailbrisiadau diwedd blwyddyn gan Briswyr Dosbarth, ynghyd â rhywfaint o lithriant cyffredinol ar brosiectau. Yn ogystal, roedd darpariaethau'r GIG £46m yn is na'r disgwyl, a hynny'n bennaf oherwydd llai o atebolrwyddau sy'n effeithio ar Gronfa Risg Cymru.
- 2.45** Roedd y tanwariant o £75.3m ym MEG yr Economi yn cynnwys £52.9m mewn arbedion yn gysylltiedig ag atebolrwyddau pensiwn Gyrfa Cymru, Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru a Chwaraeon Cymru. Roedd gostyngiad o £15.6m hefyd mewn amhariadau asedau eiddo yn dilyn y prisiad ar ddiwedd y flwyddyn. Yn ogystal, roedd tanwariant o £6.8m yn ymwneud â darpariaethau.
- 2.46** Nodwyd tanwariant AME o £5.9m yn y MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu. Fel yn ystod blynyddoedd blaenorol, roedd yr amrywiant hwn i'w briodoli i ddarpariaethau ar gyfer ymddeol yn gynnar a chostau pensiwn eraill staff Llywodraeth Cymru. Y costau pensiwn yw'r gwahaniaeth rhwng buddion a gronnwyd yn ystod y flwyddyn a chyfraniadau ariannol a wnaed i'r gronfa. Mae'n anodd darogan y cyfraniadau hyn.

3. Cario symiau ymlaen yng Nghronfa Wrth Gefn Cymru

- 3.1** Mae Cronfa Wrth Gefn ar wahân yn bodoli i Gymru i helpu i reoli amrywiadau mewn refeniw o drethi ac mae'r Gronfa yn cynnig gallu cyfyngedig i gario tanwariant drosodd rhwng blynyddoedd. Mae'r Gronfa wedi'i chyfyngu i gyfanswm o £350m. Mae'r swm y gellir ei dynnu i lawr bob blwyddyn o'r Gronfa wedi'i gyfyngu fel rheol i DEL Adnoddau Cyllidol o £125m a DEL Cyfalaf o £50m. Fodd bynnag, yn 2023-24 cafodd Llywodraeth Cymru ganiatâd gan Drysorlys EF i dynnu i lawr hyd at 100% o falans y Gronfa.
- 3.2** Mae tabl 3 yn dangos y symudiadau ar Gronfa Cymru yn y flwyddyn ariannol 2023-24 sy'n cael eu disgrifio yn y paragraffau canlynol.
- 3.3** Yn dilyn cytundeb ar falansau terfynol Cronfa Wrth Gefn Cymru ar gyfer 2022-23 â Thrysorlys EF, cafwyd gostyngiad o £0.3m wedi hynny ym malans agoriadol rheolydd DEL Cyfalaf Cyffredinol a chynnydd o £0.3m ym malans agoriadol DEL Trafodiadau Ariannol Cyfalaf. Roedd yr addasiad net yn sero.
- 3.4** Cynhwyswyd swm o £66m o Adnoddau Cyllidol i'w dynnu i lawr yng Nghyllideb Derfynol 2023-24. Cafodd £199m arall o gyllid DEL Adnoddau Cyllidol a £47.2m arall o Gyfalaf Cyffredinol eu tynnu yn Ail Gyllideb Atodol 2023-24, sef yr uchafswm sydd ar gael. Tynnwyd £37.4m arall o gyllid Trafodiadau Ariannol Cyfalaf yn yr Ail Gyllideb Atodol hefyd.
- 3.5** Yn Ail Gyllideb Atodol 2023-24, adroddodd Llywodraeth Cymru am gronfeydd wrth gefn DEL heb eu dyrannu o £184.8m ar gyfer Adnoddau Cyllidol, £70.7m ar gyfer Cyfalaf Cyffredinol a £7.2m ar gyfer Trafodiadau Ariannol Cyfalaf.

- 3.6** Adlewyrchir alldro Llywodraeth Cymru ar gyfer DEL Adnoddau Cyllidol, Cyfalaf Cyffredinol a Thrafodiadau Ariannol Cyfalaf a gofnodir yn yr adroddiad hwn uchod fel symudiadau yng Nghronfa Wrth Gefn Cymru.
- 3.7** Mae alldro'r cyrff eraill a ariennir o DEL Cymru yn cael eu cymryd i ystyriaeth hefyd. Mae'r rhain yn ymwneud â Chomisiwn y Senedd, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru a'r Comisiwn Etholiadol.
- 3.8** Cynlluniwyd ar gyfer derbyn trethi datganoledig o £3,118.6m yn yr Ail Gyllideb Atodol. Roedd y trethi gwirioneddol a gasglwyd yn £3,062.3m. Adlewyrchir y diffyg o £56.3m yng Nghronfa Wrth Gefn Cymru.
- 3.9** Mae rheolaeth ofalus ar adnoddau wedi galluogi gostyngiad o £25m yn y benthyca cyfalaf arfaethedig. Adlewyrchir hyn mewn addasiad i'r gronfa wrth gefn.
- 3.10** Bydd y gorwariant ar gyfer Trafodiadau Ariannol Cyfalaf yn cael ei adfachu yn 2024-25 yn Amcangyfrifon Atodol y DU. Adlewyrchir yr addasiad hwn fel symudiad yng Nghronfa Wrth Gefn Cymru.
- 3.11** Yn olaf, mae rhan o'r DEL Cyfalaf Cyffredinol wedi'i chlustnodi ar gyfer asedau a brydlesir o dan IFRS 16. O'r herwydd, ni ellir defnyddio unrhyw danwariant o fewn y rhan honno sydd wedi'i chlustnodi ar unrhyw beth arall ac felly rhaid ei ildio yn ôl i Drysorlys EF. Roedd y tanwariant yn £74.4m, sy'n cael ei adlewyrchu yn y tabl.
- 3.12** Mae DEL Adnoddau Anghyllidol sydd heb ei ddyrannu na'i wario'n cael ei golli ac ni ellir ei gario drosodd yng Nghronfa Wrth Gefn Cymru.

Tabl 3 Balans Cronfa Wrth Gefn Cymru gan gynnwys symiau a gariwyd ymlaen o ganlyniad i alldro DEL Cymru 2023-24

Cronfa Wrth Gefn Cymru	Adnoddau Cyllidol £m	Cyfalaf £m	Trafodiadau Ariannol Cyfalaf £m	Cyfanswm £m
Balans ar 1 Ebrill 2023	265.0	47.5	37.5	350.0
Addasiad i'r balans agoriadol	0	-0.3	0.3	0
Symiau a dynnwyd i lawr o'r gronfa wrth gefn	-265.0	-47.2	-37.4	-349.6
DEL heb ei ddyrannu yn Ail Gyllideb Atodol 2023-24	184.8	70.7	7.2	262.7
Alldro Llywodraeth Cymru	112.5	112.3	-8.0	216.8
Alldro cyrff eraill	2.2	-0.4	-	1.8
Alldro trethi datganoledig	-56.3	-	-	-56.3
Gostyngiad yn y benthyca	-	-25.0	-	-25.0
Gorwariant wedi'i wrthbwysu yn 2024-25	-	-	0.4	0
Ildio Cyfalaf IFRS 16	-	-74.4	-	-74.4
Balans ar 1 Ebrill 2024	243.2	83.2	0	326.4

3.13 Cyfanswm y balans yng Nghronfa Wrth Gefn Cymru ar 1 Ebrill 2024 oedd £326.4m sydd o fewn y terfyn sydd ar gael i'w gario ymlaen.

3.14 Yn y flwyddyn ariannol bresennol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu tynnu ar Gronfa Wrth Gefn Cymru i gefnogi cynlluniau gwario. Caiff y symiau terfynol sy'n cael eu tynnu i lawr eu hadlewyrchu yn Ail Gyllideb Atodol 2024-25.

ATODIAD 1: Alldro DEL Adnoddau⁶ yn ôl BEL

LLINELLAU GWARIANT ADNODDAU IECHYD A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL				
Llinell Wariant yn y Gyllideb	Cyllideb £000oedd	Alldro £000oedd	Tanwariant/Gorwariant	
			£000oedd	%
Dyraniadau Craidd y GIG	9,312,062	9,325,236	-13,174	-0.14
Dyraniadau Craidd y GIG - Heb fod yn arian parod	302,975	279,170	23,805	7.86
Dyraniadau Uniongyrchol Eraill y GIG	214,352	214,951	-599	-0.28
Iechyd a Gofal Digidol Cymru	48,988	48,296	692	1.41
Iechyd a Gofal Digidol Cymru - Heb fod yn arian parod	9,321	9,919	-598	-6.42
Addysg a Gwellu Iechyd Cymru	303,501	301,911	1,590	0.52
Addysg a Gwellu Iechyd Cymru - Heb fod yn arian parod	816	816	-	-
Gweithrediaeth y GIG	13,563	8,740	4,823	35.56
Iechyd Cyhoeddus Cymru	131,861	131,610	251	0.19
Y Gweithlu (GIG)	32,868	34,077	-1,209	-3.68
Cymru Iachach	59,556	54,275	5,281	8.87
Cyllidebau Eraill y GIG	25,788	22,534	3,254	12.62
Cyllidebau Eraill y GIG - Heb fod yn arian parod	95	217	-122	-128.42
Addysg a Hyfforddiant	25,918	25,715	203	0.78
Cyllidebau Canolog Datblygu'r Gweithlu	2,501	2,075	426	17.03
Iechyd Meddwl	68,648	67,537	1,111	1.62
Cronfa'r Cynllun Gweithredu ar Gamddefnyddio Sylweddau	48,070	47,471	599	1.25
Yr Asiantaeth Safonau Bwyd	5,110	4,994	116	2.27
Hybu Iechyd	13,133	14,658	-1,525	-11.61
Diogelu Iechyd ac Imiwneiddio wedi'u Targedu	6,230	7,304	-1,074	-17.24
Gwellu Iechyd a Gweithio'n Iach	11,147	8,634	2,513	22.54
Cynllunio ar gyfer Argyfyngau Iechyd	6,397	6,298	99	1.55
Cynllunio ar gyfer Argyfyngau Iechyd - Heb fod yn arian parod	-	1,380	-1,380	-
Diogelu ac Eiriolaeth	1,674	2,255	-581	-34.71
Gofalwyr Pobl Hŷn a Phobl ag Anableddau	2,820	3,529	-709	-25.14
Partneriaethau ac Integreiddio	227	295	-68	-29.96
Y Sector Gofal	299	-	299	100.00
Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy	107,128	102,380	4,748	4.43
Gofal Cymdeithasol Cymru	25,163	25,327	-164	-0.65
Gofal Cymdeithasol Cymru - Heb fod yn arian parod	411	331	80	19.46
